



COFNODION CYFARFOD CYFFREDINOL ARBENNIG
WEA YMCA CC CYMRU A GYNHALIWIYD DDYDD MERCHER 22 MEHEFIN 2016
YNG NGWESTY'R METROPOLE, LLANDRINDOD, POWYS LD1 5DY

Yn bresennol:

Swyddogion: John Graystone (Cadeirydd), Mark Isherwood (Prif Weithredwr), Stephen Thomas (Clerc y Cyngor) (3).

Aelodau Unigol: David Ashman, Mark Baines, Terri Bishop, Christine Cockroft, Viv Davies, David Elis-Williams, Christine Franks, Christopher Franks, Christina Gallagher, Tracy Garnett, Jeremy Gass, Adele Gatt, Jonathan Goddard, Dave Griffiths, Fran Griffiths, Lynne Hayes, Steve Hayes, Cath Hicks, Jayne Ireland, June Jeremy, Matthew Lloyd, Betty Mason, Nic Morgan, William Powell, Sharon Reader, Jenny Render, Susan Roberts, Dafydd Rhys, Toni Schiavone, David Smith, John Spencer, Katrina Taylor, Nick Taylor, Elaine Topping, Becky Watson Stubbs, Heather Willbourn, Maria Worley (37).

Aelodau Unigol a Chynrychiolwyr Cangen: Cathy Clark (Y Coed-duon ac Oakdale), Steve David (Port Talbot), Derek Edwards (Uned 10 Port Talbot), Phil Elias (Llanelli), Jenni Jones-Annetts (Caerffili), David MacManus (Caerffili), Sonia Reynolds (Cwm Aman Uchaf), Ceinwen Statter (Merthyr Tudful), Marilyn Thomas (Caerffili), Huw Williams (Merthyr Tudful) (10).

Cynrychiolwyr Cangen, Fforwm Dysgwyr neu Gyrrff Cysylltiedig a Phartneriaid: Julie Cook (Wales TUC Cymru), Allan Herbert (Canolfan Datblygu Cymunedol De Riverside, Caerdydd), Catrin James (Urdd Gobaith Cymru), Evie Wyn Jones (Busnes Eryri Cyf.), Jonathan Morgan (Cangen Aberhonddu), Val Williams (Sylfaen Cyf., Caernarfon) (6).

Hefyd yn bresennol: Michelle Anderson, Moelwen Gwyndaf, Nerys Hurford (Cyfieithydd ar y Pryd), Martin Price (Martin Price Associates), Heward Rees (Cangen Llanelli, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr), Gillian Wilde (6).

Ymddiheuriadau:

Rufus Adams, Graham Allen, Vivien Allen, Leanne Andreadis, Huw Baker (btp Associates), Sue Carlick, Simon Conlin, Gareth Cork, Deborah Crecraft, Carey Davidson, Andrea Davies, Gerwyn Davies (Cangen Port Talbot), Jill Davies, Nigel Davies, Terry-Anne Davies (Cangen Global Community Learning), Cath Dawkes, Maggi Dawson, Mandy Doyle, Steve Drowley, Ian R. Edwards (Uned 10 Port Talbot), Joe England, Ann Evans (Cangen y Fro), David Evans (Cangen y Fro), Gwilym T. Evans, Tudur Evans, James Fleming, Clare Fox-Rashed (Women Connect First), Janette Francis, Cerys Furlong, Elaine Gwynne, Natasha Harris, Adrian Heathfield, Llinos Hicks, Alison Hill, Daphne Holdsworth, Rob Humphreys (Is-gadeirydd), John Hurley, Lynette Hurley, Hannah Isherwood, Wally James, Gerry Jenson (Is-gadeirydd), Nathan Jones, Sarah K. Jones, Sonia Jones, Richard Knoyle (btp Associates), Hayden Llewellyn, Roslynne McAlister, Peter Midmore, Graham Morris

(Cangen Port Talbot), Richard Gareth Morris, Helen Murphy (Fforwm Dysgwyr Caerffili), Jayne Murphy, Sarah Murphy, Ray Neil, Mary Newman (Cangen Global Community Learning), Annie O'Brien, Lynne Osborne, Tim Owen, Valmai Owen, Tracey Powell, Graham Price, Martyn Reed, Cyng. Peter Rees (Cyngor Castell-nedd Port Talbot), Julie Roberts, Harold Rothera, Marjorie Rothera, Leane Saunders, Derek Thomas, Jan Tiley, Alan Tinsley, Peter Townend, Margaret Whitcombe, Buddug Wiliam, Beverly Williams, Ceri Williams (75).

1. Croeso a sylwadau rhagarweiniol

Croesawodd John Graystone bawb i'r Cyfarfod Cyffredinol Arbennig a gwneud rhai cyhoeddiadau arferol ynglŷn â'r trefniadau a'r lleoliad. Dywedodd fod y cyfarfod wedi'i gynnwys yn briodol yn unol â chyfansoddiad WEA YMCA CC Cymru, a bod y nifer yn gwneud cworwm. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan amryw aelodau a chefnogwyr (a nodir uchod). Er nad oeddent yn bresennol, roedd rhai aelodau wedi manteisio ar y cyfle i bleidleisio drwy ddirprwy ymlaen llaw. Byddai rhai o'r pleidleisiau hyn yn cael eu bwrw gan aelodau unigol enwebedig a oedd yn bresennol, eraill drwyddo ef fel Cadeirydd: byddai'r Clerc yn cyfeirio at y pleidleisiau hynny ar yr adeg briodol. Roedd angen ethol rhifwyr o blith yr aelodau a oedd yn bresennol er mwyn cyfrif y pleidleisiau ar y Llawr: etholwyd David Ashman a Matthew Lloyd i'r swyddogaethau hynny. Roedd papurau pleidleisio (gan gynnwys papurau ar gyfer pleidleisio drwy ddirprwy, lle y bo'n briodol) wedi'u dosbarthu adeg cofrestru, cyn y cyfarfod, i'r rhai â hawl i bleidleisio.

Pwysleisiodd John Graystone bwysigrwydd penodol y materion gerbron y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig yn ymwneud â'r enw a llywodraethu, a fu'n destun cryn drafodaeth ac ymgynghori ymlaen llaw. Gwyddai fod agweddau ar y cynigion yn ddadleuol ac roedd yn rhagweld trafodaeth wybodus ar y materion allweddol. Cadarnhaodd fod angen cymeradwyaeth o 75% i dderbyn y ddau Benderfyniad Arbennig neu'r Cynnig Amgen, oherwydd eu natur gyfansoddiadol, ganolog.

2. Penderfyniad Arbennig 1

'Bod enw'r Cwmni'n cael ei newid i Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales, gyda'r cyfryw benderfyniad yn dod i rym ar 31 Gorffennaf 2016 yn ddarostyngedig i dderbyn pob cydsyniad angenrheidiol (os o gwbl) ar gyfer mabwysiadu erthyglau cwmni newydd gan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr.'

Fe'i cynigiwyd gan Viv Davies a'i eilio gan David Elis-Williams ar ran Cyngor WEA YMCA CC Cymru. Dywedodd Viv Davies fod yr enw newydd yn arwydd o newid, a fyddai'n cadarnhau'r berthynas rhwng y ddau sefydliad blaenorol. Gellid cynnal cyfeiriadau at yr enwau brand blaenorol, yn cynrychioli gwaddol y gorffennol, islaw'r teitl hwn sy'n uno'r ddau gorff, a fyddai maes o law yn dod i gynrychioli'r gwaith ysbrydoledig a wneir gan y corff unedig. Pwysleisiodd David Elis-Williams ei fanteision fel teitl cwbl ddwyieithog, un yr oedd mawr ei angen i ddisodli'r cymysgedd annerbyniol o lythrennau a fodolai ar hyn o bryd ac yr oedd ei angen ar frys gan fod y sefydliad wedi bodoli ers bron i flwyddyn lawn.

Yna, siaradodd deuddeg aelod ar y mater hwn. Roedd y rhan fwyaf ohonynt o blaid dileu 'baich hirwyntog' yr enw presennol, ac yn cefnogi hanfodion gweithredol gallu symud at un

enw parth/gwefan a chyfeiriadau e-bost unedig yn hytrach na chynnal y teitlau cymysg, dryslyd presennol, a'r angen i fanteisio ar y cyfle yr ymddangosai fod Llywodraeth Cymru yn ei gynnig o ran cyllid sicr a chydweithio parhaus â phartneriaid fel Wales TUC Cymru drwy greu hunaniaeth fodern a chlir i ni'n hunain. Er yn brin o ysbrydoliaeth efallai, roedd yr enw o leiaf yn disgrifio gwaith y sefydliad mewn ffordd nad oedd yr enw presennol yn ei wneud.

Fodd bynnag, roedd lleiafrif o siaradwyr yn erbyn y newid i'r enw, am nifer o resymau: roedd rhai o'r farn ei fod yn drahaus, gan fod ddarparwyr addysg i oedolion eraill yng Nghymru. Nid oedd y geiriad ychwaith yn adlewyrchu pobl ifanc. Roedd eraill yn erbyn yr enw am ei fod, yn eu barn nhw, yn anwybyddu hanes cyfunol, arwyddocaol y sefydliadau a gyfunwyd yn ystod y tair blynedd flaenorol. I rai siaradwyr, enw yn iaith ddiflas 'cwango' ydoedd, yn awgrymu rhyw gangen o Lywodraeth Cymru neu o awdurdodau lleol.

Gwnaed addewid gan y Cadeirydd y byddai enwau/logos tri o'r sefydliadau blaenorol hynny (WEA Cymru, Coleg Harlech a CC YMCA Cymru) yn cael eu hadlewyrchu mewn is-benawdau ar bob dyluniad a oedd yn defnyddio'r enw newydd. Fodd bynnag, ni wnaeth hyn fodloni'r rhai a oedd o'r farn y dylai dyluniadau deunyddiau o'r fath fod wedi cael eu darparu eisoes i warantu'r haerriad hwn, ac a oedd yn anfodlon bod enwau cyffredinol eraill a gynnigwyd gan y broses ymgynghori heb gael eu rhannu'n agored gydag aelodau, naill ai yng nghyfarfodydd diweddar Fforymau Rhanbarthol neu nawr yn y Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol. Nid oedd yr arwyddair posibl i'w ddefnyddio yn cael ei rannu gyda'r cyfarfod ychwaith – er enghraifft, a fyddai modd cynnwys cyfeiriad at 'cymuned' yn yr arwyddair, er mwyn tawelu meddwl y rhai oedd yn credu bod hynny'n bwysig?

Yn dilyn crynhoad gan Viv Davies, roedd y bleidlais ar Benderfyniad Arbennig 1 – gan gynnwys y pleidleisiau a dderbyniwyd drwy ddirprwy – fel a ganlyn:

**67 o blaid
27 yn erbyn
10 wedi atal eu pleidlais**

Felly, methodd y Penderfyniad; er bod mwyafrif clir yn ei gefnogi, nid oedd y 75% gofynnol o'i blaid.

3. Penderfyniad Arbennig 2 a'r Cynnig Amgen ynghylch Llywodraethu

'Bod y rheoliadau a amlinellir yn y ddogfen a gyflwynir gerbron y cyfarfod ac, at ddiben adnabod, a lofnodwyd gan gadeirydd y cyfarfod, yn cael eu mabwysiadu fel erthyglau cwmni y Cwmni gan ddisodli holl erthyglau cwmni presennol y Cwmni, yn effeithiol o 1 Awst 2016, yn ddarostyngedig dim ond i dderbyn pob cydsyniad angenrheidiol (os o gwbl) ar gyfer mabwysiadu erthyglau cwmni newydd gan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr.'

Cafodd hwn ei gynnig gan Catrin James a'i eilio gan Cathy Clark ar ran Cyngor WEA YMCA CC Cymru. Siaradodd Catrin James am y broses helaeth o ymgynghori a thrafod a oedd wrth wraidd y cynigion, yn gysylltiedig â gwaith a wnaed gan yr ymgynghorydd, Martin Price, a'r ffaith bod llawer o gyfaddawdau wedi'u gwneud i gyfrif am safbwyntiau amrywiol y rhai a oedd yn teimlo'n gryf ynghylch materion yn gysylltiedig â modelau llywodraethu yn y dyfodol, er enghraifft yn ymwneud ag agweddau rhanbarthol. Felly, byddai mwyafrif o aelodau'r Cyngor ar ei newydd wedd yn llywodraethwyr etholedig, roedd y Cynulliad yn ddull newydd o

adnewyddu sylfeini democrataidd y sefydliad, ac roedd mwy o gyfathrebu electronig ag aelodau yn cael ei gynnwys yn y cyfansoddiad hefyd. Daeth i ben trwy ddyfynnu neges gan yr aelod Derek Thomas, yn gofyn bod ei farn 'bod y Cynnig Amgen yn dileu rheolaeth ddemocrataidd ac yn gosod pŵer yn nwylo ychydig' yn cael ei darllen i bawb. Cefnogodd Cathy Clark y Penderfyniad, yn sgil bod yn aelod o'r grŵp gorchwyl a gorffen a oedd wedi llywio'r newidiadau arfaethedig, ac yn ymwybodol o'r sawl barn wahanol ar y mater. Roedd y Cynulliad yn gam dewr ymlaen i'r sefydliad, ac o gael 19 lywodraethwr byddai'r Cyngor arfaethedig yn parhau'n gorff mawr o gymharu â grwpiau eraill yr oedd hi'n ymwneud â nhw.

Yna, siaradodd Jeremy Gass ar ran y Cynnig Amgen. Er ei fod yn cydnabod y symud tuag at gael mwyafrif o bobl etholedig ar y Cyngor, teimlai fod yr elfen yn y Penderfyniad Arbennig, sef y dylai Cadeirydd y Cyngor newydd ddod yn benodol o blith y rhai a benodir i'r Cyngor, braidd yn sarhaus. Roedd o'r farn bod hyn yn gam yn ôl, gwrth-ddemocrataidd - yn yr un modd â'r ffaith nad oedd hi'n ofynnol yn awtomatig i lywodraethwyr fod yn aelodau o'r sefydliad. Roedd y drefn Amgen a gynigiwyd yn cynnwys Cyngor mwy o faint, o 25 o bobl, a oedd yn ei farn ef ac eilydd swyddogol y cynnig, Graham Price, yn adlewyrchu'r ystod a'r mathau o ddysgwyr yn well, gan feintoli cynrychiolaeth o blith fforymau rhanbarthol, fforymau dysgwyr, canghennau, aelodau unigol, cyrff cysylltiedig a phartneriaid a staff – gyda'r Penderfyniad Arbennig yn gadael rhywfaint o'r gynrychiolaeth yn nwylo'r Cyngor i benderfynu arni. Hefyd, nid oedd cynigwyr y Cynnig Amgen yn gweld rheswm dros greu Cynulliad, oherwydd y pryder y byddai'n drysu'r trefniadau llywodraethu gyda'i gylch gwaith amwys, braidd, ac y gallai danseilio'r cyfarfod cyffredinol blynyddol a'r Fforymau Rhanbarthol. Gwnaed cynnig ffurfiol o'r Llawr ar gyfer y Cynnig Amgen gan David Smith.

Siaradodd wyth o'r Llawr, a'r rhan fwyaf ohonynt yn cefnogi'r Cynnig Amgen. I lawer ohonynt, roedd ei saerniaeth yn fwy democrataidd o ran canghennau, cyrff cysylltiedig a phartneriaid, yn enwedig o ystyried bod yna Cadeirydd penodedig a Phrif Weithredwr yn gwasanaethu'n awtomatig fel llywodraethwr o dan y Penderfyniad Arbennig. I rai siaradwyr, roedd y Cynulliad yn ymddangos yn ddiddannedd ac yn annelwig. Wrth amddiffyn y Penderfyniad Arbennig, roedd rhai siaradwyr o'r farn ei fod yn cynnig ffordd fwy aeddfed o adlewyrchu democratiaeth yn y sefydliad, ac y byddai'n bosibl i fwy o bobl gymryd rhan. Pwysleisiodd Martin Price, a wahoddwyd i siarad ar ran y Penderfyniad Arbennig, ei farn mai'r hyn a welodd ef wrth fynychu Fforymau Rhanbarthol, y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r Cyfarfod Cyffredinol Arbennig, oedd rhyw lun ar ddemocratiaeth yn hytrach na chynrychiolaeth wirioneddol o'r miloedd o bobl yr oedd y sefydliad yn ymdrin â nhw. Yn ei farn ef, roedd Cynulliad yn hanfodol i adfywio strwythur cyfranogol a oedd yn adlewyrchu dysgwyr, cyrff cysylltiedig a phartneriaid yn fwy cywir. Roedd peidio â disgrifio'i rôl yn benodol yn y cynigion yn weithred fwriadol, fel y gallai esblygu gydag amser ar ôl ei ffurfio. Ofnai bod y sefydliad mewn perygl o golli cyfle pwysig i foderneiddio pe bai'n gwrthod y Penderfyniad Arbennig.

Gwnaed pwyntiau crynhoi a gwrth-ddweud gan Jeremy Gass a Catrin James yn eu tro i ddod â'r drafodaeth i ben. Cynhaliwyd pleidlais yn gyntaf ar y Cynnig Amgen. Yn cynnwys y pleidleisiau a dderbyniwyd drwy ddirprwy, roedd y canlyniad fel a ganlyn:

65 o blaid
25 yn erbyn
10 wedi atal eu pleidlais

Felly, methodd y Cynnig; er bod mwyafrif clir yn gefnogol, nid oedd y 75% gofynnol o'i blaid.

Roedd pleidlais ddilynol ar Benderfyniad Arbennig 2 gan y Cyngor – gan gynnwys y pleidleisiau a dderbyniwyd drwy ddirprwy – fel a ganlyn:

**24 o blaid
61 yn erbyn
15 wedi atal eu pleidlais**

Felly, cafodd y Penderfyniad hwnnw ei drechu yn glir.

4. Mabwysiadu Rheolau Sefydlog, Rheolau a Gweithdrefnau diwygiedig Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales

Oherwydd nad oedd yr un o'r Penderfyniadau Arbennig na'r Cynnig Amgen wedi'u pasio yn gynt yn yr agenda, a bod y ddogfen benodol hon yn dibynnu ar eglurder a phendrantrwydd ynghylch enw ac Erthyglau Cwmni, cytunodd y cyfarfod i anwybyddu'r eitem hon ar yr agenda heb drafodaeth na phleidlais.

5. Cynnig yn ymwneud â'r strwythur democrataidd a chefnogaeth staff iddo

'Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Arbennig hwn yn nodi'r gefnogaeth ysgubol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar gyfer democratiaeth o fewn y sefydliad ac argymhellion yr ymgynghorydd ynghylch cynyddu ein haelodaeth. Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Arbennig yn galw ar y Cyngor i sicrhau bod rôl gan o leiaf un aelod staff, o fewn y strwythur staffio newydd, i adeiladu a chefnogi strwythur democrataidd y sefydliad, gan gynnwys Fforymau Dysgwyr, Canghennau a Fforymau Rhanbarthol, ac i ddatblygu'r aelodaeth.'

Unwaith eto, Jeremy Gass oedd cynigiwr y cynnig hwn, a ddeilliodd o'i syndod ef (ac eraill) bod swydd o'r fath ar goll o'r siart gwreiddiol ar gyfer ailstrwythuro'r staff. Wrth eilio'r cynnig, siaradodd Sonia Reynolds am y modd yr oedd lefel y drafodaeth yn y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig wedi dangos beth oedd yn bosibl gyda chymorth ac adnoddau mewn Fforymau Rhanbarthol yn y dyfodol, ar yr amod bod cefnogaeth staff ar gael.

Ymatebodd Mark Isherwood trwy ddweud bod y cynnig hwn wedi derbyn cefnogaeth gan yr Uwch Dîm Rheoli a'r Cyngor. Yn sgil ymgynghori â'r staff hefyd, cafodd swydd amser llawn, fel yr amlinellwyd, ei chynnwys yn fersiwn bresennol (fersiwn 3) y strwythur staffio.

Roedd y bleidlais ar y cynnig hwn – gan gynnwys y pleidleisiau a dderbyniwyd drwy ddirprwy – fel a ganlyn:

**99 o blaid
4 yn erbyn
5 wedi atal eu pleidlais**

Felly, derbyniwyd y cynnig yn glir, gyda mwyafrif sylweddol o'i blaid.

6. Cynllun Strategol 2016-2019

Diolchodd Mark Isherwood i'r rhai a oedd yn bresennol am eu mewnbwn yn ystod camau ymgynghorol amrywiol y Cynllun hwn, a ddosbarthwyd er gwybodaeth gyda'r papurau, a fyddai'n llunio ffocws gwaith y sefydliad dros y 3 blynedd nesaf. Gofynnodd David Smith am eglurhad ynghylch ystyr 'partneriaid strategol' yn y ddogfen, gan ofyn a oedd y Co-operative College yn un o'r rhain. Roedd hwn yn ddiffiniad eang yn ymgorffori amrywiol ffrydiau gweithgarwch a diddordeb, felly'r ateb i'w gais penodol oedd 'oedd'. Roedd Jeremy Gass yn falch o weld cyfeiriadau yma ac yn yr Erthyglau heb eu cymeradwyo (Penderfyniad Arbennig 2) at waith ymchwil, ond roedd yn meddwl tybed sut byddai gwaith yn y maes hwnnw'n cael ei gefnogi heb aelod staff penodol yn ei le yn y strwythur diwygiedig. Rhoddodd Mark Isherwood sicrwydd o'i ymrwymiad personol i'r agenda ymchwil ac ychwanegodd y byddai gan y Dirprwy Brif Weithredwr, i'w ph-/benodi cyn hir, rôl benodol yn y maes hwnnw hefyd.

7. Cynnig a gyflwynwyd o Lawr y Cyfarfod

Dosbarthwyd dogfen yn cynnwys y cynnig canlynol, yn ymateb i newyddion a ddaeth i law ers galw'r Cyfarfod Cyffredinol Arbennig:

'Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Arbennig hwn yn llongyfarch cyn Brif Weithredwr WEA Cymru, Maggi Dawson, ar dderbyn OBE yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines 2016 ac mae'n cydnabod y cyfraniad arwyddocaol y mae Maggi wedi'i wneud, ac yn parhau i'w wneud, at Ddysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill yn ogystal.'

Fe'i cynigiwyd gan y Cyngor a'i eilio o'r Llawr gan David Smith. Roedd rhai wedi cwestiynu pa mor briodol oedd cael hwn fel cynnig ffurfiol. Cafwyd cymeradwyaeth gyffredinol i'r llongyfarchiadau a fynegwyd, er nad oedd cefnogaeth lwyd iddynt, gan nad oedd rhai yn cefnogi'r hyn a oedd yn system anrhydeddau annerbyniol yn eu tyb nhw.

8. Penderfyniad ar gamau sydd i'w cymryd nesaf gan y sefydliad

O ystyried y penderfyniadau yn gynt yn yr agenda i beidio â phasio'r un o'r ddau Benderfyniad Arbennig na'r Cynnig Amgen, roedd y Clerc wedi drafftio penderfyniad brys a oedd yn ofynnol er mwyn amlinellu'n ffurfiol y cam nesaf yn y broses newid ar gyfer y sefydliad. Fe'i darllenwyd gan y Cadeirydd fel a ganlyn:

'Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Arbennig hwn, yn sgil methu â dod i gytundeb ar y ddau Benderfyniad Arbennig ger ei fron, yn penderfynu ymestyn gwaith y Cyngor hyd at 31 Rhagfyr 2016, h.y. am bum mis, ac mae'n gorchymyn y Clerc i ffeilio'r Erthyglau diwygiedig (sydd ynghlwm) sy'n ymestyn y dyddiad ac i ddiwygio Erthygl 10.'

Ymhellach, mae'r Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol hwn yn gofyn bod y Cyngor yn sefydlu gweithgor i weithio ar faterion enw newydd ac Erthyglau diwygiedig, gyda'r nod o gyflwyno'i gynigion i Gyfarfod Cyffredinol Arbennig i'w gynnull cyn 31 Rhagfyr 2016.'

Cymeradwyodd y cyfarfod y cynnig hwn yn unfrydol, drwy fanllef. Yr unig ychwanegiadau gan ddau aelod oedd eu bod o'r farn y dylid cynnal y Cyfarfod Cyffredinol Arbennig nesaf ar ddiwrnod gwahanol o'r wythnos, ar amser gwahanol o'r dydd, ac mewn lleoliad gwahanol i'r lleoliad presennol.

Diolchodd John Graystone i'r rhai a oedd wedi siarad am lefel uchel y drafodaeth a chwarteisi'r trafodion. Ei unig sylw o'r Gadair oedd teimlo rhyw anghysur ynghylch pwysigrwydd pleidleisiau drwy ddirprwy yn y canlyniadau, o gofio nad oedd yr unigolion a bleidleisiodd felly wedi bod yn bresennol i glywed y dadleuon o safon dda o blaid ac yn erbyn pob penderfyniad a chynnig.